CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

# Hysbysiad o Etholiad

## Ethol Cynghorwyr Cymuned ar gyfer y Wardiau Cymunedol a restrir isod

## Dyddiad yr Etholiad: Dydd Iau, 5 Mai 2022

| **Cymuned [Ward Gymunedol]** | **Nifer y Cynghorwyr Cymuned i gael eu hethol** | **Cymuned [Ward Gymunedol]** | **Nifer y Cynghorwyr Cymuned i gael eu hethol** |
|---|---|---|---|
| Abergele [Gele] | CHWECH | Llandrillo-yn-Rhos [Rhos] | PUMP |
| Abergele [Pen-sarn] | TRI | Llandudno [Craig-y-don] | PEDWAR |
| Abergele [Pentre Mawr] | CHWECH | Llandudno [Gogarth] | PEDWAR |
| Abergele [St George] | UN | Llandudno [Mostyn] | PEDWAR |
| Bae Colwyn [Glyn] | PEDWAR | Llandudno [Penrhyn] | PEDWAR |
| Bae Colwyn [Rhiw] | PUMP | Llandudno [Tudno] | PEDWAR |
| Betws-yn-Rhos [Betws-yn-Rhos] | CHWECH | Llanfairfechan [Bryn] | PEDWAR |
| Betws-yn-Rhos [Llanelian-yn-Rhos] | PEDWAR | Llanfairfechan [Lafan] | TRI |
| Betws-y-coed | WYTH | Llanfairfechan [Pandy] | CHWECH |
| Bro Garmon [Capel Garmon] | CHWECH | Llanfairtalhaiarn | DEG |
| Bro Garmon [Melin-y-Coed] | TRI | Llanfihangel Glyn Myfyr | SAITH |
| Bro Machno [Cwm] | DAU | Llangernyw [Gwytherin] | DAU |
| Bro Machno [Penmachno] | SAITH | Llangernyw [Llangernyw] | CHWECH |
| Caerhun [Llanbedr-y-Cennin] | DAU | Llangernyw [Pandy Tudur] | DAU |
| Caerhun [Tal-y-Bont] | TRI | Llangwm | WYTH |
| Caerhun [Tyn-y-Groes] | CHWECH | Llannefydd | WYTH |
| Capel Curig | SAITH | Llanrwst [Crwst] | SAITH |
| Cerrigydrudion | NAW | Llanrwst [Gower] | CHWECH |
| Conwy [Aberconwy] | DAU | Llansanffraid Glan Conwy [Bryn Rhys] | CHWECH |
| Conwy [Castle] | TRI | Llansanffriad Glan Conwy [Fforddlas] | CHWECH |
| Conwy [Deganwy] | PEDWAR | Llansannan [Bylchau] | TRI |
| Conwy [Marl] | PUMP | Llansannan [Llansannan] | WYTH |
| Conwy [Pensarn] | TRI | Llysfaen [Llysfaen] | SAITH |
| Dolgarrog | WYTH | Llysfaen [Peulwys] | PUMP |
| Dolwyddelan | WYTH | Mochdre | UNARDDEG |
| Eglwys-bach | DEG | Penmaenmawr [Capelulo] | PUMP |
| Hen Golwyn [Colwyn] | PEDWAR | Penmaenmawr [Pant-yr-Afon] | CHWECH |
| Hen Golwyn [Eirias] | TRI | Penmaenmawr [Penmaenan] | DAU |
| Henryd [Llangelynin] | PEDWAR | Pentrefoelas | SAITH |
| Henryd [Llechwedd] | PUMP | Trefriw [Llanrhychwyn] | DAU |
| Llanddoged & Maenan [Llanddoged] | PEDWAR | Trefriw [Trefriw] | SAITH |
| Llanddoged & Maenan [Maenan] | PEDWAR | Tywyn & Bae Cinmel [Bae Cinmel] | DEG |
| Llanddulas & Rhyd-y-Foel [Dulas] | WYTH | Tywyn & Bae Cinmel [Tywyn] | PUMP |
| Llanddulas & Rhyd-y-Foel [Rhyd-y-Foel] | TRI | Ysbyty Ifan [Eidda] | PEDWAR |
| Llandrillo-yn-Rhos [Dinarth] | TRI | Ysbyty Ifan [Tir Ifan] | TRI |

## Cael papurau enwebu

1. Gellir cael papurau enwebu gan y Swyddog Canlyniadau un ai ym Modlondeb, Conwy, LL32 8DU neu'n electronig drwy etholiadol@conwy.gov.uk. Maent hefyd ar gael gan Glercod y Cynghorau Cymuned.

## Cyflwyno papurau enwebu

2. Rhaid cyflwyno'r papurau enwebu i'r Swyddog Canlyniadau ddim hwyrach na 4pm ddydd Mawrth, 5 Ebrill 2022.

3. Gellir danfon papurau enwebu yn bersonol i'r Swyddog Canlyniadau ym Modlondeb, Conwy, LL32 8DU rhwng 10am a 4pm ar unrhyw ddiwrnod gwaith o ddyddiad cyhoeddi'r hysbysiad hwn (ac eithrio gwyliau banc) neu'n electronig yn unol â'r trefniadau a nodir yn y datganiad cyflwyno electronig isod.

4. Os oes mwy nag un ymgeisydd yn yr etholiad, bydd y bleidlais yn cael ei chynnal ddydd Iau, 5 Mai 2022.

## Cofrestru Etholwyr

5. Rhaid i geisiadau i ychwanegu enw at y Gofrestr Etholwyr er mwyn pleidleisio yn yr etholiad hwn gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol, Bodlondeb, Conwy, LL32 8DU erbyn **dydd Iau, 14 Ebrill 2022**. Gellir cyflwyno ceisiadau ar-lein yn www.gov.uk/cofrestru-i-bleidleisio.

## Pleidlais bost a thrwy ddirprwy

6. Dylai etholwyr a'u dirprwyon nodi bod yn rhaid i bob cais am bleidlais bost newydd, neu bob cais i ddiwygio neu ganslo pleidlais bost bresennol gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol, Bodlondeb, Conwy, LL32 8DU erbyn **5pm, ddydd Mawrth, 19 Ebrill 2022.** Mae hyn yn cynnwys etholwyr neu eu dirprwyon sy'n dymuno diwygio eu trefniadau presennol yn barhaol.

7. Rhaid i bob cais am bleidlais drwy ddirprwy yn yr etholiad hwn gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol, Bodlondeb, Conwy, LL32 8DU erbyn **5pm, ddydd Mawrth, 26 Ebrill 2022.**

8. Rhaid i geisiadau i bleidleisio trwy ddirprwy brys yn yr etholiad hwn ar sail anallu corfforol neu am resymau gwaith/gwasanaeth neu'r angen i gydymffurfio â deddfiad neu ganllaw gan Weinidogion Cymru sy'n ymwneud â'r coronafeirws gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol erbyn **5pm, ddydd Iau, 5 Mai 2022**. Rhaid i'r anallu corfforol fod wedi digwydd ar ôl 5pm ddydd Mawrth, 26 Ebrill 2022. I ymgeisio ar sail gwaith/gwasanaeth neu coronafeirws, mae'n rhaid i'r unigolyn fod wedi dod i wybod na allant fynd i'r orsaf bleidleisio eu hunain ar ôl 5pm ddydd Mawrth, 26 Ebrill 2022.

## Datganiad cyflwyno'n electronig

9. Gellir cyflwyno papurau enwebu yn electronig yn unol â threfniadau a nodir yn y datganiad hwn -
    - **Gwiriadau anffurfiol** - dros e-bost at etholiadol@conwy.gov.uk. Rhowch 'GWIRIAD ANFFURFIOL – LGE22' yn nhestun y neges
    - **Cyflwyno enwebiadau** - ewch i www.conwy.gov.uk/enwebiadau a chyflwynwch y papur enwebu drwy'r porth ar-lein

    Sylwer:

    - Cyfrifoldeb yr ymgeiswyr yw sicrhau bod y Swyddog Canlyniadau yn cael y ffurflenni enwebu yn y ffordd gywir erbyn y dyddiadau cau.
    - Nid yw derbynneb electronig bod y neges wedi ei ddarllen gan y Swyddog Canlyniadau yn gadarnhad bod yr enwebiad yn ddilys. Bydd y Swyddog Canlyniadau yn anfon hysbysiad i roi gwybod i ymgeiswyr am ei benderfyniad a yw eu henwebiad yn ddilys neu beidio.
    - Os bydd arnoch angen cymorth i gyflwyno eich enwebiadau'n electronig, cysylltwch ag etholiadol@conwy.gov.uk.



**Iwan Davies, Swyddog Canlyniadau**

Dyddiedig: Dydd Gwener, 18 Mawrth 2022

Argraffwyd a chyhoeddwyd gan y Swyddog Canlyniadau, Bodlondeb, Conwy, LL32 8DU
Rhif ffôn: 01492 576052